# DATGANIAD GWERTHOEDD TÎM CYMRU AR GYFER PENCAMPWRIAETH EWRO'R MERCHED UEFA 2025

**GALWAD AC ATEB**

## GYDA'N GILYDD YN GRYFACH

**Rydyn ni'n dîm – a mwy. Rydyn ni'n fudiad dros gyfiawnder, cydraddoldeb a rhoi grym i ferched drwy chwaraeon, diwylliant ac arweinyddiaeth.**

Dyma ymateb Tîm Cymru i'r alwad gan Ddatganiad Hawliau Dynol UEFA. Wedi'i seilio ar strategaeth PAWB Cymdeithas Bêl-droed Cymru, mae ein dull – **Croeso i bawb!** – yn ymgyrch ddiwylliannol gynhwysol a chydweithredol ar draws sectorau.

Mae'r egwyddor o **haelioni** ac ymrwymiad i **ragoriaeth** ar y cae ac oddi arno, yn arwain at lwyddiant, gan gefnogi datblygiad pêl-droed ieuenctid ac arweinwyr cryf, ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol. Mae Pencampwriaeth Ewro 2025 yn foment fawr i Gymru – dyma'r tro cyntaf i ni gystadlu mewn pencampwriaeth o bwys i ferched.

Mae ymrwymiad UEFA i "gryfhau cydlyniant cymdeithasol, hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant" yn cyd-fynd â'n cred ni bod: pêl-droed a diwylliant yn perthyn i bawb, ym mhobman.

## YMDDWYN YN BARCHUS

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas. Dydyn ni ddim yn goddef hiliaeth, homoffobia, rhywiaeth, trawsffobia, ableddiaeth, nac unrhyw fath o gamdriniaeth, aflonyddu, camymddwyn neu droseddau casineb. Byddwn yn canolbwyntio ar atal ac addysgu.

Creu newid yw ein nod. Ni yw Tîm Cymru.

**CLICIWCH NEU SGANIWCH Y CÔD AM RAGOR O WYBODAETH**

Tîm Cymru
Team Wales

Rydym am weithredu heddiw i greu etifeddiaeth sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd:

### GRYMUSO POBL IFANC, ARWEINYDDIAETH, DYSGU, PARCH A RHAGORIAETH

**Codi wrth i ni ddringo**

- Rhagoriaeth ar y cae ac oddi arno er mwyn grymuso cenedlaethau heddiw ac yfory;
- Rhoi'r un cyfle i bawb ddatblygu a chymryd rhan mewn chwaraeon, celfyddyd a diwylliant;
- Cael gwared ar rwystrau a chefnogi arweinwyr benywaidd drwy chwaraeon a diwylliant.

### CYNALIADWYEDD A LLES DIWYLLIANNOL

**Cymunedau lleol â chyfrifoldebau byd-eang**

- Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol i genedlaethau'r dyfodol drwy weithredu heddiw;
- Sicrhau cyfiawnder hinsawdd drwy gefnogi diwylliannau ac ieithoedd Brodorol byd-eang.

### CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

**Iddyn nhw! I ni! Iddi hi!**

- Sicrhau triniaeth deg i ferched mewn chwaraeon, diwylliant, addysg ac yn y gymdeithas;
- Rhoi llais i ferched sydd wedi cael eu hanwybyddu drwy ddileu rhwystrau i gymryd rhan.

### TEGWCH, CYNRYCHIOLAETH, DIOGELU AC ATEBOLRWYDD

**Brenhines pob camp, cyfiawnder**

- Sicrhau cynrychiolaeth dda i ferched lleiafrifol ethnig, LGBTQ+, anabl, o dan anfantais economaidd ac sy'n siarad Cymraeg drwy gamau cadarnhaol a gofodau cynhwysol;
- Diogelu merched drwy bolisïau cadarn, dulliau adrodd diogel, a blaenoriaethu eu lles yn holl weithgareddau Tîm Cymru;
- Dathlu **amrywiaeth**, **cymuned** a **lloches** drwy gydlynu a thargedu camau gweithredu, yn unol ag egwyddorion Cymru Wrth-hiliol a Cymru: Cenedl Noddfa.

# TEAM CYMRU VALUES STATEMENT FOR UEFA WOMEN'S EURO 2025

## GALWAD AC ATEB

## TOGETHER STRONGER

**We are a team and more. We are a movement for justice, equality, and empowering women through sport, culture and leadership.**

This is a Team Cymru ymateb (response) to a *galwad* (call) by UEFA's Human Rights Declaration. Rooted in the FAW's PAWB Cymru strategy, our approach – **Croeso i bawb! Everyone is welcomed!** - is a cross-sector collaborative and inclusive cultural campaign.

The value of *haelioni* or a **generosity** of spirit combined with our quest for **excellence** on and off the pitch propels success that generates grassroots and youth development, excellence in leadership, in turn inspiring and mentoring the next generation of young leaders.

UEFA Women's Euro 2025 is a peak moment for Cymru – our first major women's tournament. UEFA's commitment to "strengthen social cohesion, promote equality and inclusion" aligns with our belief: football and culture are for everyone, everywhere.

## RESPECTFUL BEHAVIOUR

We are committed to a safe, inclusive environment where everyone is treated with dignity. We do not tolerate racism, homophobia, sexism, transphobia, ableism, or any form of abuse, harassment, misconduct or hate crime. We will focus on prevention and education.

We are change makers. We are Team Cymru.

**CLICK OR SCAN THE QR CODE FOR MORE INFORMATION**

Tîm Cymru
Team Wales

We are committed to taking action now to create legacy based on our values:

### YOUTH EMPOWERMENT, LEADERSHIP, LEARNING, RESPECT AND EXCELLENCE

**Lifting as we rise**

- Excellence on and off the pitch to empower current and for future generations.
- Equitable pathways to participation and mentorship across sports, arts and culture.
- Breaking barriers and supporting female leadership through sports and culture.

### SUSTAINABILITY AND CULTURAL WELLBEING

**Local communities with global responsibilities**

- Environmental sustainability for future generations means action today.
- Climate justice means supporting global Indigenous cultures and languages.

### EQUALITY AND INCLUSION

**For them! For us! For her!**

- Fair treatment of women and girls in sport, culture; education and civic life.
- Amplifying unheard female voices means removing barriers to participation.

### FAIRNESS, REPRESENTATION, SAFEGUARDING AND ACCOUNTABILITY

**Brenhines pob camp, cyfiawnder**

- Meaningful representation of women from ethnic minorities, LGBTQ+, disabled, economically disadvantaged and of Cymraeg means positive actions and spaces.
- Safeguarding young women through robust protection policies, safe reporting mechanisms, and prioritizing their wellbeing in all Team Cymru activities.
- Celebrating **diversity**, **community** and **sanctuary** means developing coordinated and targeted actions aligned Anti-racist Wales and Wales Nation of Sanctuary.